**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:
Arweinwyr Cynghorau
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Penaethiaid Gwasanaethau Plant

24 Medi 2020

Annwyl gyfaill,

**Cynlluniau i leihau niferoedd plant sy'n derbyn gofal – Canlyniadau blwyddyn 1 (2019/20)**

Diolch i chi a'ch timau am barhau i weithio'n adeiladol gyda swyddogion ar y gwaith i leihau niferoedd plant sy'n derbyn gofal a dod â'r rhai sy'n derbyn gofal yn nes at eu cartref.

Dyma agenda heriol, ond mae awdurdodau wedi cytuno i gydweithio i reoli'r niferoedd plant sy'n derbyn gofal fel y gellir sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plant yn ein gofal, a buddsoddi mwy mewn gweithgareddau atal. Yr egwyddor allweddol o hyd yw bod gan blant yr hawl i fyw gyda'u teuluoedd genedigol os yw'n bosibl, gyda chymorth ychwanegol os oes angen.

Fel y gwyddoch, mae'r cynlluniau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ar waith am dair blynedd, sef y cyfnod 2019-2022. Ar ôl cyflwyno canlyniadau diwedd blwyddyn 2019/20, gallwn yn awr roi gwybod am y canlyniadau yn y flwyddyn gyntaf. Yn 2019/20 gwelwyd:

- cynnydd o 280 o blant sy'n derbyn gofal (4%)
- cynnydd o 99 o blant sydd wedi'u lleoli y tu allan i'w sir (5.2%)
- cynnydd o 27 o blant sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru (7%)
- cynnydd o 19 o blant sydd wedi'u cymryd oddi ar riant gydag anabledd dysgu (19%), fodd bynnag, nid yw'r rhif hwn yn ddibynadwy gan mai dim ond wyth o'r 22 awdurdod a adroddodd ar hyn.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd 7,180 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, ar gyfradd o 114 i bob 10,000 o'r boblogaeth (roedd yn 109 i bob 10,000 o'r boblogaeth yn flaenorol). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan rywun ac eithrio eu rhieni, eu perthnasau ehangach neu ffrindiau wedi cynyddu 0.75% yn unig (33 o blant). Mae hyn yn gyfradd o 69 i bob 10,000 o'r boblogaeth sy'n llawer iawn is na 114 i bob 10,000 o'r boblogaeth ar gyfer y boblogaeth gyfan o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Ar draws Cymru, ceisiodd awdurdodau lleol gyflawni lleihad o 2.9% yn y niferoedd plant sy'n derbyn gofal yn 2019/20. Mae cynnydd o 4% yn y niferoedd plant sy'n derbyn gofal felly yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

siomedig iawn. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau y gellir cyflawni'r lleihad disgwyliedig.

Rydym yn bryderus iawn am yr amrywiad parhaus o ran yr hyn y mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'i gyflawni. Mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys eich awdurdod chi, wedi cadw'r cynnydd i'r lleiafswm neu wedi cyflawni lleihad bychan, ond mae nifer fach wedi gweld cynnydd mawr sy'n cael effaith niweidiol ar y darlun cenedlaethol. I gysoni nifer y plant sy'n derbyn gofal gyda'r lleihad a gynigiwyd gan awdurdodau lleol ym mlynyddoedd 2 a 3, mae angen camau gweithredu penodol pellach.

- Mae'r ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, gyda CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd, ar amrywiad cyfraddau plant sy'n derbyn gofal mewn awdurdodau lleol wedi ailddechrau (roedd y gwaith hwn wedi'i atal dros dro oherwydd COVID). Bydd y gwaith hwn yn ystyried a yw gwerthoedd a phenderfyniadau gweithwyr cymdeithasol yn effeithio ar amrywiad cyfraddau plant sy'n derbyn gofal.

- Parhau i drafod gyda'r farnwriaeth – cynhelir cyfarfod gweinidogol yn fuan gyda'r farnwriaeth i drafod y disgwyliadau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a rôl barnwriaeth Cymru. Byddwn yn parhau i weithio i wella ymddiriedaeth a hyder rhwng awdurdodau lleol a'r llysoedd.

- Byddwn yn sefydlu tîm cymorth a thrawsnewid i helpu i leihau amrywiad ymysg awdurdodau lleol a chefnogi arferion gorau cyson Cymru gyfan i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a chyflawni'r ddyletswydd digonolrwydd o ran lleoli plant o fewn ffiniau awdurdodau lleol. Bydd y tîm yn ceisio cynnal trafodaethau gyda'r awdurdodau lleol ynglŷn â chynnydd a wnaed o ran y cynlluniau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r cynlluniau darparu i'r dyfodol. Bydd yr awdurdodau sydd heb gyflawni'r lleihad mewn plant sy'n derbyn gofal yn 2019/20 a/neu sydd â'r cyfraddau cynnydd mwyaf problemus, yn cael blaenoriaeth o ran cymorth.

- Gwella'r ffocws ar ymarfer adferol i helpu i gymell arferion diwylliannol yn ymwneud ag atal ac ailuno â'r teulu ar ôl derbyn gofal. Bydd hyn yn cynnwys ehangu modelau arloesol newydd a phresennol ar gyfer eiriolaeth rhieni, ailuno â'r teulu a chynadleddau grŵp teulu sy'n cefnogi plant i aros yn ddiogel gyda'u rhieni genedigol a'r teulu ehangach

- Cyflawni Fframwaith Dysgu gan Gymheiriaid Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan i alluogi awdurdodau lleol i rannu a chyfnewid arferion da. Bu oedi o ran ei weithredu o ganlyniad i COVID-19, ond dylid ei roi ar waith yn awr. Gan weithio ochr yn ochr â Gofal Cymdeithasol Cymru bydd gweithdai adolygu gan gymheiriaid yn cael eu darparu rhwng ardaloedd awdurdodau lleol i adnabod cyfleoedd ar gyfer rhannu dysg.

- Yn dilyn ymchwil yr IPC a chyfarfod bord gron y Prif Weinidog, bydd swyddogion yn cyd-gynhyrchu datblygiad canllawiau i gefnogi rhieni ag anableddau dysgu.

Mae swyddogion ar gael i drafod y cynigion hyn yn fanylach. Gobeithiwn y byddwch yn dal i weithio'n gadarnhaol gyda ni i gyd-gynhyrchu'r atebion a fydd yn gweithio orau i'ch awdurdod lleol chi.

Yn gywir,

**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**